# Y Pwyllgor Archwilio

## Cofnodion AC(2) 02-06

### Dyddiad y cyfarfod: 16 Chwefror 2006

### Amser y cyfarfod: 1:30pm – 4:00pm

### Lleoliad y cyfarfod: Ystafell Bwyllgora 3, Senedd

#### Aelodau Cynulliad yn Bresennol

| **Aelod Cynulliad** | **Etholaeth** |
|---|---|
| Janet Davies (Cadeirydd) | Gorllewin De Cymru |
| Leighton Andrews | Rhondda |
| Mick Bates | Sir Drefaldwyn |
| Jocelyn Davies | Dwyrain De Cymru |
| Mark Isherwood | Gogledd Cymru |
| Irene James | Islwyn |
| Denise Idris Jones | Conwy |
| Carl Sargeant | Alun a Glannau Dyfrdwy |

#### Swyddogion yn Bresennol

| | |
|---|---|
| Jeremy Colman | Yr Archwilydd Cyffredinol |
| Paul Dimblebee | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Martin Peters | Swyddfa Archwilio Cymru |
| Gillian Body | Swyddfa Archwilio Cymru |
| James Verity | Swyddfa Archwilio Cymru |

| | |
|---|---|
| Geraint Morgan | Swyddfa Archwilio Cymru |
| David Powell | Swyddog Cydymffurfiaeth y Cynulliad |

**Tystion**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg |
| Keith Davies | Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg |

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

| **Enw** | **Teitl Swydd** |
|---|---|
| Kathryn Jenkins | Clerc y Pwyllgor |
| Liz Wilkinson | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

## Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd Aelodau'r Pwyllgor ac aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod.

1.2 Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Alun Cairns a Catherine Thomas.

1.3 O ran eitem 2, datganodd Irene James a Carl Sargeant fuddiant fel llywodraethwyr ysgol. Yn ogystal, datganodd Jocelyn Davies fuddiant gan fod ei merch yn ddisgybl yn Ysgol Gyfun Trecelyn, y cyfeiriwyd ati yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.

## Eitem 2: Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) a'r Gronfa Ysgolion Gwell
## Papur: AC(2) 02-06(p1)

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Richard Davies, Cyfarwyddwr, yr Adran Hyfforddiant ac Addysg a Keith Davies, Is-adran Safonau a Pherfformiad, Adran Hyfforddiant ac Addysg.

**Pwynt gweithredu**

Cytunodd Richard Davies i ddarparu nodyn o esboniad i'r Pwyllgor ar b'un a oedd adroddiad archwilio mewnol 1998 Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi mynd i'r afael â'r mater o ganllawiau ar gyfer arweinwyr polisi o ran asesu cynlluniau gwariant AALl.

**Eitem 3: Rhaglen archwiliadau gwerth am arian**
**Papur: AC(2) 02-06(p2)**

3.1 Amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol ei raglen archwiliadau gwerth am arian ar gyfer 2006-07 yn gryno.

3.2 Nododd y Pwyllgor y rhaglen olaf.

**Eitem 4: Y wybodaeth ddiweddaraf ar ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Comisiwn Archwilio Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: Rheoleiddio Rheoli Gwastraff**
**Papur: AC(2) 02-06(p3)**

4.1 Awgrymodd yr Archwilydd Cyffredinol ffyrdd y gallai'r Pwyllgor ddilyn ymhellach y mater o drefniadau ar gyfer nodi safleoedd posibl ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff.

**Pwynt gweithredu**

Cytunodd y Cadeirydd i ysgrifennu at Gadeirydd Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad i ofyn i'r Pwyllgor hwnnw fynd ar drywydd y mater o drefniadau ar gyfer nodi safleoedd posibl ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff yng nghyd-destun ei adroddiad Ymchwiliad i Fodloni Targedau Tirlenwi ac Ailgylchu

**Eitem 5: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Comisiwn Archwilio, Adroddiad Cyffredinol Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Papur: AC(2) 02-06(p4) a AC(2) 02-06(p5)**

5.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyngor yr Archwilydd Cyffredinol.

**Eitem 6: Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i adroddiad y Pwyllgor Archwilio, Cyllid GIG Cymru 2006**
**Papur: AC(2) 02-06(p6) a AC(2) 02-06(p7)**

6.1 Nododd y Pwyllgor ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyngor yr Archwilydd Cyffredinol.

**Eitem 7: Cofnodion y cyfarfod diwethaf**
**Papur: AC(2) 01-06(mins)**

7.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Ionawr 2006.

Penderfynodd y Pwyllgor i wahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod yn unol â Rheol Sefydlog 8.24 (vi)

**SESIWN BREIFAT**

**Eitem 8: Adroddiadau Drafft y Pwyllgor**
**Papur: AC(2) 02-06(p8) a AC(2) 02-06(p9)**

8.1 Yn amodol ar ychwanegiad i'r adroddiad drafft Cytundeb ar gyfer y ddarpariaeth o wasanaeth meddyg teulu y tu allan i oriau yng Nghaerdydd, cytunodd y Pwyllgor â'r ddau adroddiad.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**
**Chwefror 2006**